**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I’R PWYLLGOR DEDDFAU**

**Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) 2000**

**Y Cefndir**

Drwy Ran VI o Ddeddf Tai 1996 y penderfynir ar ddyrannu llety tai gan awdurdodau tai lleol. O dan adrannau 160, 161, 162 a 163 o Ddeddf Tai 1996 caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ragnodi:

1. achosion nad yw darpariaethau Rhan VI yn gymwys iddynt,

2. dosbarthiadau o bersonau sy’n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 ond sy’n gymwys hefyd i ddyraniad llety tai,

3. dosbarthiadau eraill o bersonau sy’n gymwys, neu ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn gymwys, i ddyraniad llety tai,

4. gwybodaeth sydd i’w chadw yng Nghofrestr Tai awdurdod tai lleol o bersonau cymwys, a

5. camau sydd i’w cymryd gan awdurdod tai lleol i ddileu enw person oddi ar y Gofrestr Tai.

Mae Rheoliadau Dyrannu Tai (Lloegr) 2000 ("Rheoliadau Lloegr") yn darparu ar gyfer pob un o’r uchod.

Mae’r Rheoliadau hyn yn cymhwyso sylwedd cyfreithiol darpariaethau Rheoliadau Lloegr at Gymru. Maent yn gwneud rhai diddymiadau canlyniadol hefyd.

Gwnaed y Rheoliadau hyn drwy ddefnyddio’r Weithdrefn Frys ar 30 Mawrth 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau fel materion y mae angen i’r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

Bydd yr Aelodau yn sylwi unwaith eto fod yr Offeryn hwn yn deddfu drwy gyfeirio at Reoliadau Lloegr. Ar wahân i’r croesgyfeirio cynhenid y mae’n ei olygu, nid oes i hyn unrhyw oblygiadau

cyfreithiol anfanteisiol.

Mae’r Rheoliadau hyn yn diddymu Rheoliadau 2 a 3 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) 1997 a Rheoliad 2 o Reoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Diwygio) (Rhif 2) 1997, tra bod Rheoliadau Digartrefedd yng (Nghymru) 2000 yn diddymu Rheoliadau 4 a 5, a Rheoliad 3 o’r setiau hynny o Reoliadau yn eu tro. Deellir bod hyn yn cael ei wneud am fod angen pwerau gwahanol i ddiddymu’r Rheoliadau gwahanol. Er hynny, gan fod Rheoliad 1 yn dal heb ei ddiddymu yn y ddau achos, mae’n golygu bod y ddau Offeryn Statudol yn parhau i fodoli ond heb unrhyw ddarpariaethau o sylwedd cyfreithiol. Buasai’n well pe bai hyn wedi’i osgoi.

**DYLAN M HUGHES**
Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol
Y Pwyllgor Deddfau

**7 Ebrill 2000**

Ein Cyf: LAD 01-01-104